


Cyfeiriwyd at y garthen arbennig Chon eisoes mewn erthyglau yn rhifynnau 75-76 o'r Casglwr, ac mewn llythyr yn rhif 76. Gwelir dau lun yn rhifyn 75. Mae'r naill yn dangos carthen goch a llywydfelyn, un a wnaed ym Mhwllheli, sydd ym meddiant yr Amgueddfa Wlân yn Drefach-Felindre, a'r llall yn llun o weithwyr ffatri wlân Pwllheli. Amcangyfrifwyd mai o gwmpas 1898-9 y tynnwyd y llun o'r gweithwyr.

Rhaid dychwelyd at y testun hwn oherwydd sylw gwerthfawr newydd. Wedi craffu'n ofalus ar y garthen ar liniau'r wraig oedrannus yn y llun o'r gweithwyr, sylweddolodd Keith Rees o'r Amgueddfa Wlân mai llun o Gastell Caernarfon yn unig sydd arni. Mae'n ymddangos, felly, mai un tebyg yw'r garthen honno i'r un wreiddiol a wnaeth John Roberts, Caernarfon, i'w chyflwyno i Dywysog Cymru yn 1868 ar achlysur agor Gwaith Dŵr y dref.

Credir mai John Griffith Jones oedd y perchennog

Gwyddom eisoes mai yn 1895 y sicrhaodd John Griffith Jones, Pwllheli, ei hawl breiniol ar batrwm newydd yn dangos dau adeilad, Castell Caernarfon a Choleg Aberystwyth. Wrth gredu bod y llun o'r gweithwyr yn dangos y castell ynghyd â'r coleg, doedd hi ddim yn anodd meddwl mai wedi hynny dynnwyd hwnnw. Ynddo mae dau berson arbennig yn hawlio sylw - y gŵr barfog yn sefyll o flaen drws y ffatri, a'r wraig yn dal y garthen ar ei glin. Credir mai John Griffith Jones, perchennog y ffatri (35 yn 1891), oedd y naill; mai ei lysfam, Frances Griffith (66 yn 1891), oedd y llall. Mae'n anodd credu y buasent yn edrych fawr gwahanol rhwng 1891 ag 1898.



Carthen Pwllheli (Cefndir coch a'r lluniau yn llywydfelyn)

Does dim hanes hyd yma wedi dod i'r golwg am gynhyrchu rhagor o garthenni tebyg i'r un wreiddiol yng Nghaernarfon ond ymhle, tybed, y gwnaed yr un yn y llun? Gwelir y posibilrwydd, os nad y tebygolrwydd, y byddai ffatri Pwllheli wedi dechrau gwneud rhai cyn troi at greu patrwm newydd. Tynnwyd y llun o'r gweithwyr, felly, yn nes at 1891 nag 1899.

Llun o Goleg Aberystwyth yn anghywir

Esboniodd Brynley F. Roberts yn ei erthygl yn rhifyn Gaeaf, 2002, o'r Casglwr mai ar gam hefyd y derbyniwyd bod y llun o Goleg Aberystwyth a ddewiswyd ar gyfer y garthen newydd yn bortread cywir o ran o'r coleg a fu ar ei draed. Mae'r llun, yn hytrach, yn gopi o gynllun John Seddon, pensaer Coleg Aberystwyth; un a wnaed ganddo yn 1886 i esbonio sut yr hoffai ef weld y lle wedi'i ailadeiladu yn dilyn tân difaiol yn

1885. Rhagwelai godi neuadd fawr ganolog i gysylltu dwy adain o'r adeilad yn sefyll i'r de a'r gogledd ond wedi cyfnod hir o drafod gwrthodwyd y cynllun hwnnw. Gwahoddiwyd pensaer arall yn 1894 i gynllunio bloc canolog newydd. Agorwyd hwnnw yn 1898.

Yng Nghaernarfon y gwnaed y Garthen?

Yn yr erthygl yn rhifyn 75 awgrymwyd mai Edward Davies-Bryan, Caernarfon a Cairo, a gymhellodd John Roberts i wneud y garthen wreiddiol, a hynny'n ôl y traddodiad i'r perwyl hynny ymhlith ei deulu. Bu Joseph, ei fab, yn fyfyrwr yn Aberystwyth rhwng 1882 ac 1887, ac awgrymodd hynny'r posibilrwydd, os mai yng Nghaernarfon y gwnaed y garthen yn y llun o Bwllheli, y gallai yntau fod wedi bod wrth gefn y syniad i helaethu'r garthen i gynnwys llun o'r coleg. Oherwydd datguddiad Brynley F. Roberts, tybed a wyddai ef lawer am gynllun Seddon ac yntau, ar deryn ei addysg, wedi ymadael am yr Aiffi i fod yn fasnachwr?

Ym Mhwllheli y cynlluniwyd y Garthen newydd

Mae'n ymddangos yn debycach erbyn hyn mai ym Mhwllheli yn hytrach nag yng Nghaernarfon y cynlluniwyd y garthen newydd. Os aeth John Griffith Jones, perchennog y ffatri yn y dref honno, i'r drafferth o brynu patrwm y garthen wreiddiol mae'n fwy na phosib mai ei syniad ef oedd ychwanegu'r llun o'r coleg. Ar y llaw arall mae'n werth ystyried enw arall, rhywun o'r dref a fu'n fyfyrwr ei hun yn Aberystwyth, a allasai fod wedi bod yn ddylanwad yn y dewis hwnnw. Ymddengys braidd yn od mai llun o goleg Aberystwyth a ddewiswyd yn hytrach nag un o goleg Bangor yn yr un

(Parhâd ar y dudalen nesaf)



Gweithwyr Ffatri Wlân Pwllheli tua 1890